

24

*Ar gael mewn diwygiau eraill*

# Cynllunio i Atal Troseddu

Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn amlygu polisïau cynlluniau datblygu mewn ffordd glir a chyson, sy'n cydnabod y gall cynllun amgylchedd corfforol ddylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad. Gall cynllun dymunol, llawn dychymyg a dichonol helpu i leihau troseddu, gofidio am droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol i gyflawni amgylchedd diogelach ac o ansawdd uchel a gwelliant yn ansawdd bywyd trigolion. Bydd y nodyn yn ffurfio ystyriaeth sylweddol wrth benderfynu ar holl geisiadau cynllunio perthnasol.

## Egwyddorion Cynllunio

Mae cynllunio i atal troseddu'n dibynnu ar gyflawni'r egwyddorion allweddol canlynol:

a) lle diffynadwy - sy'n gwahaniaethu rhwng mannau cyhoeddus, lled-breifat a phreifat a nodweddir gan lefelau cynyddol o reolaeth mynediad i unigolion neu grwpiau penodol. Mae rhwystrau corfforol a/neu symbolaidd yn diffinio mannau, yn pwysleisio trosiant rhwng mannau ac yn atal mynediad dieisiau;

b) tiriogaethedd - sy'n nodi mannau penodol, a ddiffinnir drwy gynllun neu leoliad unigryw cyfleusterau cymunedol, fel parth unigolyn neu grwpiau penodol. Mae defnydd rheolaidd o'r mannau hyn yn meithrin ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth, diogelwch ar y cyd a pherthyn sy'n atal unrhyw darfu diofyn;

c) goruchwyliaeth - sy'n peri i ddarpar droseddwyr fod yn amlwg, o ganlyniad i gyfuniad o gynllun, defnydd cymysg a gweithgareddau cymdeithasol lleol. Gellir gwella ar oruchwyliaeth yn naturiol drwy leihau rhwystrau gweledol a mannau cuddio neu'n ffurfiol drwy TCC neu batrolau diogeledd lle na all goruchwyliaeth naturiol ddiogelu ardal;


ch) safonau diogelwch adeilad - sy'n atal pobl rhag cael mynediad, drwy osod caledwedd diogeledd a defnyddiau cryfach i safonau cymeradwy.

## Rhestr Wirio

### a) Tai

Lleoliad, Cynllun a Symudiadau

- lleolwch adeiladau i ganiatáu golygfa ddi-rwystr o eiddo cyfagos tra'n cadw preifatrwydd digonol a darparu golygfa uniongyrchol dros fannau cyhoeddus;
- cyfyngwch nifer y fflatiau a wasanaethir gan un fynedfa;
- cymysgedd o fathau o anheddau i'w wneud yn fwy tebygol y bydd rhywun gartref yn ystod y dydd yn rhai ohonynt;
- dylai gerddi cefn gysylltu â gerddi cefn eraill i gyfyngu mynediad diofyn o fan cyhoeddus;





## Ymagwedd Gyffredinol

Mae mesurau a anelir at wella diogelwch cyhoeddus yn estyn y tu hwnt i swyddogaethau cynllunio defnydd tir. Felly, mae'r ymagwedd a gymerir ar gyfer cynllunio i atal troseddu'n:

a) gynhwysfawr - rhaid ystyried cynllun ar y cyd â mesurau diogelwch eraill (e.e. TCC, cloeon, cofrestriad Night Safe, ayb) a'r gymuned yn cadw eu llygaid ar agor


b) cydweithredol - bydd estyn cyfrifoldeb am ddiogelwch i bob sefydliad â buddiant (e.e. Heddlu Gogledd Cymru, adeiladwyr tai, ayb) a thrigolion yn hybu ymdeimlad o berchnogaeth a balchder.

**Eiddo Preswyl**
**- enghraifft ddrwg**




- osgowch gynlluniau lle mae anheddau'n cefnu mannau agored neu lwybrau troed;
- dylid gosod mynedfeydd, storfeydd bin, mannau sychu cymunedol a siediau gardd yn glir o flaen prif ystafelloedd anheddau cyfagos i osgoi creu mannau tywyll cuddiedig lle gall pobl guddio neu ymddwyn yn wrthgymdeithasol;
- lleihewch lwybrau drwodd a nifer y mannau mynd a dod i ystadau a gwnewch ddefnydd da o ffyrdd pengaead;
- cyfyngwch gysylltiadau cerdded rhwng ffyrdd pengaead ac osgowch fynediad cefn i anheddau;
- dylid darparu parcio a modurdai o fewn y man preswyl a dylai ystafelloedd y mae pobl yn eu defnyddio edrych allan arnynt;
- dylid goleuo mannau parcio cymunedol yn dda ac ni ddylid eu gosod tu cefn i adeiladau, oni bai y'u rheolir gan glwydi a reolir o bell;
- dylai llwybrau troed fod yn glir, yn olau, yn uniongyrchol a dylai anheddau cyfagos edrych allan arnynt heb gorneli tywyll neu gudd lle gallai pobl guddio;
- mabwysiadwch fesurau arafu traffig i leihau cyflymdra traffig;
- defnyddiwch arwynebau ffordd gwahanol, pileri mynedfa neu culhewch y ffordd i ddangos mynedfeydd i ystadau;
- osgowch is-ffyrdd, yn enwedig lle nad oes modd gweld drwodd.


**Tai**
**- enghraifft dda**




Adeiladau a Ffiniau

- dylai strwythurau un llawr fel cynteddau, estyniadau a modurdai gael to ar ogwydd i atal pobl rhag defnyddio hwy i gael mynediad i ffenestri neu agoriadau eraill ar y llawr cyntaf;
- gellir cyfyngu mynediad i gefn tai drwy ddefnyddio clwydi y gellir eu cloi oddeutu 2m o uchder heb gymhorthion neu fariau y gellid eu defnyddio i ddringo dros y clwydi;
- darparwch system ffôn fynediad â chlo trydanol mewn mynedfeydd cymunedol i fflatiau;
- gosodwch ddrysau o ansawdd uchel â gwydr wedi ei lamineiddio, o ddewis, clo mortais, tyllau gwylio a chadwyni;
- gosodwch ffenestri gwydr wedi ei lamineiddio o ansawdd uchel â chloeon;
- gall goleuadau diogeledd sy'n sensitif i symudiadau tu blaen a thu cefn i anheddau ond nad yw'n achosi niwsans i gymdogion wella diogeledd a goruchwyliaeth i adeiladau, eu defnyddwyr a'r rhai sy'n cerdded heibio;
- dylid defnyddio ffensys neu waliau i ddiffinio mannau preifat fel bod darpar droseddwyr yn teimlo'n llai hyderus;
- gosodwch drelis â phlanhigion pigog ar ben ffensys ysgafn i atal tresmaswyr mewn sefyllfaoedd risg isel;
- dylai ffiniau rhwng mannau cyhoeddus a gerddi cefn/ochr preifat mewn sefyllfaoedd risg uchel fod o leiaf 1.8 metr o uchder ac o ddefnydd cadarn na ellir ei gicio na'i wthio i lawr;
- gall plannu planhigion pigog helpu i atal graffitti a loetran yn ogystal â gwella diogeledd ffiniau. Mae'r planhigion hyn yn cynnwys celyn (Ilex aquifolium), helyg (Crateagus spp), pren melyn (Bereris julianae), drain tân (Pyracantha spp), drain du (Prunus spinosa) a'r rhosyn (Rosa rugosa/canina). Gellir cael cyngor pellach yn Nodyn Cyfarwyddyd 7 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam "Tirlunio".
- dylid diffinio ffiniau blaen â waliau neu reiliau isel hyd at 1 metr o uchder neu drwy blannu gwrychoedd isel, mewn lleoliad cytrefol cynllun agored;
- dylai waliau bric gael pen ar ogwydd neu bigog i atal pobl rhag eistedd arnynt ac ymgynnull;

**Masnachol**
**- enghraifft dda**




- ni ddylai waliau ffiniol gynnwys pileri y gellir eu defnyddio fel grisiau i gael mynediad.

## b) Adeiladau Masnachol a Chyhoeddus


Lleoliad, Cynllun a Symudiadau

- dylid lleihau nifer y mynedfeydd ac allanfeydd i gerddwyr a cherbydau, dylent wynebu'r brif ffordd fynediad a mynd heibio i ddesgiau derbyn a swyddogion diogeledd er mwyn monitro ymwelwyr;
- dylid osgoi llwybrau ochr neu gefn a dylid rheoli mynediad i lwybrau presennol â chlwydi neu ddrysau;
- dylid gosod clwydi mewn mannau cludo, fel arfer tu cefn i ddatblygiad, i rwystro pobl nad oes hawl ganddynt gael mynediad;
- dylid gosod llochesi bws mewn mannau agored â digon o olau fel bod defnyddwyr yn weladwy bob amser;
- gwahaniaethwch rhwng mannau dadlwytho a mannau parcio drwy osod arwynebau gwahanol;
- lle'n bosibl, darparwch lety byw uwchben siopau i annog goruchwyliaeth naturiol;
- dylai llwybrau cerdded i ac o adeiladau ac i fannau cludiant cyhoeddus a meysydd parcio cyhoeddus fod yn uniongyrchol, wedi eu harwyddo ac â digon o olau;
- ni ddylid annog is-ffyrdd i gerddwyr.

Adeiladau a Ffiniau

- dylai mannau derbyn fod yn agored, croesawgar ac â digon o olau;
- dylid gosod drysau dianc rhag tân i atal fandaliaeth;
- gall defnyddio drysau gwydr trwchus helpu i weld mannau cudd neu helpu TCC i wylio o tu mewn i'r adeilad;

**Masnachol**
**- enghraifft ddrwg**




- nid yw waliau, ffensys rhannu a phlannu (heblaw am goed) yn uwch na 1m mewn meysydd parcio yn briodol gan eu bod yn cynnig gormod o gysgod;
- darparwch barcio diogel gyda'r nos, lle'n briodol;
- dylid lleihau golau disglair sy'n tarfu ar eiddo cyfagos a mannau c yhoeddus;
- gosodwch ddrysau cefn sylweddol â chloeon o ansawdd uchel;
- gosodwch ffenestri â phaneli sefydlog a gwydr wedi ei lamineiddio, yn enwedig tu cefn i eiddo;
- darparwch gynhwyswyr planhigion mawr, bolardiau neu ddodrefn stryd arall i atal pobl rhag gyrru eu cerbydau i mewn i eiddo a siopau;
- dylai ffiniau gynnwys wal frics gadarn, rheiliau neu, lle'n briodol (e.e. mannau diwydiannol), ffensys palisad/paladin o leiaf 1.8 metr o uchder;
- gall plannu planhigion pigog helpu i atal graffiti a loetran yn ogystal â gwella diogeledd. Mae planhigion priodol yn cynnwys celyn (Ilex aquifolium), helyg (Crateagus spp), pren melyn (Bereris julianae), drain tân (Pyracantha spp), drain du (Prunus spinosa) a'r rhosyn (Rosa rugosa/canina). Ceir cyngor pellach yn Nodyn Cyfarwyddyd 7 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, "Tirlunio".
- gellid defnyddio ffensys gwifrog a phigog mewn amgylchiadau eithriadol i ddiogelu mannau agored rhag difrod ond dylid eu cynllunio a'u lleoli'n ofalus fel nad ydynt yn weledol ymwthgar;
- gosodwch gaeadau mewn sefyllfaoedd risg uchel. Ceir cyngor pellach yn Nodyn Cyfarwyddyd 18 "Diogeledd Blaenau Siopau".

## c) Mannau Agored Cyhoeddus a Thirlunio

Lleoliad, Cynllun a Symudiadau

- dylai fod modd edrych allan yn uniongyrchol ar fan agored cyhoeddus;
- peidiwch â chreu darnau annigonol o fannau agored cyhoeddus sy'n anodd i'w cynnal a chadw;
- peidiwch â phlannu coed yn rhy agos i adeiladau lle gellir eu defnyddio i ddringo a chael mynediad i loriau uwch;
- peidiwch â phlannu coed na gwrychoedd lle byddant yn amharu ar oleuadau neu lwybrau i gerddwyr;
- ni ddylai cynlluniau plannu roi cyfle i bobl guddio neu ymgynnull ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol;
- dylid lleoli mannau chwarae i blant a


sited within sight of adjoining properties but not next to roads or car parks.

Detailed Issues


- prevent unauthorised vehicular access by the use of walling, fencing, or the use of bollards;
- avoid planting landscaping that will grow over 1 metre in height immediately adjacent to public footpaths;
- hard landscaping should be vandal resistant and not provide potential missiles;
- defensible planting of spiny or thorny plants can help prevent graffiti and loitering, enhance security, and keep the public to designated pedestrian routes. Appropriate plant species include Holly (Ilex aquifolium), Hawthorn (Crateagus spp), Berberis (Bereris julianae), Firethorn (Pyracantha spp), Blackthorn (Prunus spinosa), and Rose (Rosa rugosa/canina). Further advice is contained in Wrexham County Borough Council's Local Planning Guidance Note 7 "Landscaping".
- light glare and/or spillage onto adjoining properties and public areas should be minimised;
- children's play areas should be securely fenced, vandal and resistant proof.

Further advice is contained in Wrexham County Borough Council's Local Planning Guidance Note 10 "Public Open Space in New Housing Development".

**Public open space - good example**




**Public open space - poor example**





For further information contact:

*Chief Planning Officer*
*Lambpit Street,*
*Wrexham, LL11 1AR.*
*Telephone: (01978) 292017*
*Fax: (01978) 292502*
*www.wrexham.gov.uk/planning*
*Adopted May 2003*